OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

*Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (p. 16)*

**177.**—(1) Mae Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 wedi ei diddymu.

(2) Nid yw diddymu'r Ddeddf honno yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym o dan adran 17B o Ddeddf Plant 1989, neu o dan reoliadau a wneir o dan yr adran honno, fel y mae'n gymwys yn rhinwedd adran 7(2) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (mae'r cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 17B i gael ei drin fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'r adran yn gymwys o ran Cymru).